Ordinhad 10
Y Cyngor: Aelodau Cyfetholedig

Corff Cymeradwyo: Y Cyngor

Dyddiad Cymeradwyo: 06 Gorffennaf 2018

Perchennog y polisi: Ysgrifennydd y Brifysgol

Cyswllt y polisi: Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

Statws y polisi: Diwygiwyd

Fersiwn: 2.0

Dyddiad adolygu: Gorffennaf 2020

ORDINHAD 10
Y CYNGOR: AELODAU CYFETHOLEDIG

1. Aelodau Cyfetholedig

    1. Gellir cyfethol unigolion nad ydynt yn aelodau o staff na myfyrwyr y Brifysgol, ar yr amod nad yw cyfanswm aelodaeth y Cyngor yn mynd y tu hwnt i'r hyn a bennwyd drwy'r Ystatud.

    2. Bydd pob aelod cyfetholedig yn gwasanaethu yn y swydd am dymor hyd at dair blynedd.

    3. Gall y Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfiaeth wneud argymhellion i gyfethol aelodau i'r Cyngor, ond cyn hynny bydd yn sicrhau bod yr holl swyddi gwag am Aelodau Annibynnol wedi'u llenwi drwy ddefnyddio'r drefn a bennwyd drwy Ordinhad.

2. Ailbenodi aelodau cyfetholedig

    1. Bydd aelodau cyfetholedig yn gymwys i'w hailbenodi ar yr amod na fyddant yn gwasanaethu am fwy na chwe blynedd yn olynol naill ai yn y categori hwnnw neu yng nghategori'r Aelodau Annibynnol.

    2. Pan fydd unigolyn wedi gwasanaethu am y cyfnod hiraf a ganiateir fel y'i disgrifir yn 2.1, ni fydd yn gymwys i'w benodi neu i'w phenodi eto yn y categorïau hyn o aelodaeth hyd nes bydd cyfnod o dair blynedd yn dod i ben.

    3. Os bydd y cyfnod hiraf a ganiateir yn dod i ben fel y'i disgrifir yn 2.1., bydd yr unigolyn yn dal i fod yn gymwys i wasanaethu ar y Cyngor am dymor arall mewn swyddogaeth arall.

    4. Bydd aelodau cyfetholedig sydd yn cael eu symud o'u swydd o dan Ystatud 12(2) (a) (iv) yn gymwys i'w hailethol ar ôl cyfnod o ddwy flynedd.